Ruthin Friends of the Earth Magazine

Cylchgrawn Cyfeillon y Ddaear

Summer/Haf 2024



Issue/Rhifyn 9

In this Issue

◆ Ruthin Repair Café Repairs it's 1000th item and is Awarded a Community Grant.
◆ Ruthin Friends of the Earth Levelling Up Funded Projects with Ruthin by Graham Steel
◆ Poetry by Diana Sanders
◆ Is Hydrogen the answer to our future energy needs? By Richard Barrie
◆ Rishi Sunak has Just Called an Election by Christine Meirion.
◆ Seven Reasons to Vote on 4 July by Pete Regan and Diana Sanders.
◆ Hustings at Theatr John Amrose
◆ Projects and Contacts

All photos By Diana Sanders.

Yn y Rhifyn Hwn

◆ Caffi Trwsio Rhuthun yn atgyweirio ei 1000fed eitem ac yn cael grant cymunedol.
◆ Prosiectau Cyfeillion y Ddaear Rhuthun, a ariennir o dan Ffyniant Bro gan Graham Steel
◆ Barddoniaeth gan Diana Sanders
◆ A fydd Hydrogen yn gallu ateb y galw am ynni yn y dyfodol? gan Richard Barrie
◆ Rishi Sunak yn cyhoeddi etholiad gan Christine Meirion.
◆ Saith rheswm pam ddylech chi bleisleisio ar 4 Gorffennaf gan Pete Regan a Diana Sanders.
◆ *Hustings* yn Theatr John Amrose
◆ Prosiectau ac enwau cyswllt

Y lluniau i gyd gan Diana Sanders.

Caffi Trwsio Rhuthun yn atgyweirio ei 1000fed eitem ac yn cael grant cymunedol.

Mae Enfinium, cwmni sy'n troi gwastraff yn ynni, wedi rhoi grant cymunedol i Gaffi Trwsio Rhuthun. Dave Cottis yw rheolwr y safle sy'n rhan o grŵp Enfinium ym Mharc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, lle mae gwastraff gwastraff biniau du Sir Ddinbych yn mynd. Daeth Dave ar ymweliad â Chaffi Trwsio Rhuthun ym mis Mai, gan ei fod yn awyddus i weld y math o eitemau sy'n cael eu hatgyweirio a sut mae'r caffi yn gweithio. Hefyd galwodd Llyr Gruffyd AS draw i'n gweld ni. Bu Llyr yn Aelod o'r Senedd dros Ranbarth y Gogledd ers 2011, ac mae wedi bod yn brysur yn hyrwyddo grantiau cymunedol ymhlith Caffis Trwsio yn yr ardal. Dywedodd Anne Lewis, sy'n rhedeg y Caffi Trwsio yn Rhuthun: "Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y grant. Bydd yn helpu i dalu am gynnal y gwasanaeth hwn ac yn ein galluogi i redeg cyrsiau hyfforddiant i'r gwirfodddolwyr sy'n rhoi o'u hamser am ddim bob mis i atgyweirio eitemau i'r gymuned".

Y mis hwn roedd y Caffi yn dathlu trwsio ei 1000fed eitem ers iddo gychwyn ym mis Chwefror 2020. Fe wnaeth Sylvia Coles drwsio pâr o legins gymnasteg i Leucu sy'n 14 oed. Cafwyd seibiant o'r gwaith atgyweirio (a bwyta cacennau) i ddathlu'r achlusur drwy guro dwylo. Dywedodd mam Lleucu: "Rydyn ni'n hapus iawn bod y

legins wedi cael eu trwsio gan y byddai'n ddrud iawn prynu rhai newydd, a bydd Lleucu yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth gymnasteg yr wythnos nesaf."

Cafodd achlysur arall ei ddathlu yn y Caffi Trwsio hefyd pan ddaeth Julie i mewn i gasglu cerflun sy'n ddelwedd o'i phen hi ei hun. Cafodd y cerflun, sydd â haen efydd, ei atgyweirio gan Andrew Coomber, artist a gof arian talentog, ac un o wirfoddolwyr y caffi. Roedd y cerflun, a oedd wedi cael ei greu gan ffrind iddi, yn ddelwedd ohoni gyda'i gwallt hir am y tro olaf ar ôl iddi gael diagnosis o ganser.

Yn anffodus, roedd wedi cael ei ollwng ar y llawr gan fab 11eg oed Julie tua 25 o flynyddoedd yn ôl. Roedd y difrod yn sylweddol gyda hollt fawr yn y pen. Dywedodd Julie: "Dw i wrth fy modd ac yn teimlo'n emosiynol iawn." Roedd Anrew Coomber yn falch iawn ei fod wedi gallu atgyweirio rhywbeth sy'n golygu cymaint i Julie.

Cynhelir y Caffi Trwsio ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis 10am - 1pm. (eitemau olaf yn cael eu derbyn am 12.30pm).





Above: Lleucu, with her Mum and repairer Sylvia Coles - the 1000th repair.

Left: Julie with her sculpture, repaired by Andrew Coomber

Ruthin Repair Café Repairs it's 1000th Item and is Awarded a Community Grant.

Ruthin Repair café has been awarded a community grant by Enfinium who are a waste-to-energy company. Dave Cottis, who is the plant manager of Parc Adfer located on Deeside, where Denbighshire black bin waste is taken and part of the Enfinium group came along to Ruthin's May Repair Café. He was keen to see the type of items that are fixed and how the Café works. Llyr Gruffyd who has been an Assembly Member for the Senedd in the North Wales region since 2011 also attended as he has been trying to promote community grants to Repair Cafés in the region. Anne Lewis who runs the Repair Café in Ruthin said "we're extremely grateful for the grant which will pay running costs and enable us to run training courses for the volunteers who give their time for free every month to fix items for the community".

This month, also celebrated the 1000th repair since the Café started in February 2020. This was a sewing fix by Sylvia Coles on some gymnastic leggings for fourteen-year-old, Lleucu. There was a pause in the

repairing, (and cake-eating) to celebrate the moment with a round of applause. Lleucu's Mum said 'We're delighted with the repair as new gymnastic leggings are very expensive and Lleucu has a competition next week.'

Another 'Repair Shop' moment came when Julie came in to collect a dipped bronze head in her image which had been repaired by talented artist, silver-smith and Repair Café volunteer, Andrew Coomber. The sculpture, which had been made by a friend of hers, captured Julie, for the last time, with long hair about the time she was diagnosed with cancer.

It was dropped by Julie's 11-year-old son 25 years ago. The damage was extensive with a large split in the head. Julie said "I'm just so happy and I feel very emotional'. Andrew Coomber, was also extremely delighted that he could fix something that meant so much to Julie.

The Repair Café is on the first Saturday of the month from 10 am to 1pm. (Last orders 12.30pm).

Ruthin Friends of the Earth Levelling Up Funded Projects within Ruthin — Consultation Response.

We recently submitted some observations regarding the proposed changes to St Peter's Square and Cae Ddol.

We welcomed the removal of the roundabout on St Peter's Square enabling the area to be more friendly for people not using motorised transport. We also made a number of suggestions to improve the proposals:

- Further investigations to identify how a cycle route into, over and out of the square affording a safer through route across the town
- Discouraging through traffic from the square other than for residents, owners, staff and users of businesses and deliveries
- A cycle parking area at the top of town.
- Using the changes to retrofit sustainable drainage (SuDS) to help to reduce combined storm overflow events

- Using tree planting that maximises the ability to manage surface water impacts to be part of the design to increase biodiversity and to add amenity value for example providing shade to mitigate climate change effects. Where trees are not appropriate the uses of planters and flower beds should be explored.

We were disappointed with the proposals for the park. We believe that measures to improve bio-diversity and enhance and create wildlife habitats should take precedence over increasing the urbanisation of the principle green space in the town. Equally measures to contribute toward the river achieving "good" status should be pursued. The river is highly modified which can cause changes to natural flow levels, excessive build-up of sediment and the loss of habitat that wildlife needs to thrive. Measures should also have due regard to the reduction and management of flood risk to the downstream areas.

All proposals should have a site-specific Flood Risk Assessment; (for example the proposed "pump

track" stands between the river and the bunds that provide the principal flood defences), and a biodiversity statement to address the council's biodiversity plans for conservation, enhancement and restoration of habitats and species,".



Prosiectau Cyfeillion y Ddaear Rhuthun a ariennir o dan Ffyniant Bro — Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Yn ddiweddar fe wnaethom gyflwyno sylwadau ynghylch y newidiadau arfaethedig i Sgwâr Sant Pedr a Chae Ddol.

Roeddem yn croesawu'r syniad o gael gwared ar y cylchfan ar y Sgwâr er mwyn gwneud y lle'n fwy croesawgar i bobl sydd ddim yn defnyddio ceir na moduron o unrhyw fath. Hefyd fe wnaethom nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynigion:

- Dylid ystyried ymhellach y posibiliadau ar gyfer creu llwybr beiciau i mewn i'r Sgwâr, ar ei draws, ac allan ohono, er mwyn creu llwybr mwy diogel ar draws y dref
- Dylid annog gyrrwyr i beidio â mynd drwy'r Sgwâr oni bai eu bod yn byw yno, yn berchen ar fusnes yno, yn gweithio yno neu'n defnyddio busnes neu'n cyflenwi nwyddau
- Byddai'n dda cael lle i barcio beiciau rhywle
- Dylid defnyddio'r newidiadau i osod system ddraenio gynaliadwy (SuDS) i helpu i leihau gorlifo yn ystod stormydd

- Byddai'n syniad da plannu coed mewn modd sy'n gwneud y gorau o'u gallu i reoli effeithiau dŵr wyneb fel rhan o'r cynllun i gynyddu bioamrywiaeth ac i ychwanegu at ei werth fel amwynder, er enghraifft drwy greu cysgod i leddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yn y mannau lle nad yw'n addas plannu coed, dylid edrych ar y posibiliadau ar gyfer defnyddio potiau a chreu mannau i blannu blodau.

Roedd y cynigion sy'n ymwneud â'r parc yn siomedig. Rydym yn credu y dylid blaenoriaethu mesurau i wella bioamrywiaeth a gwella a chreu cynefinoedd i fywyd gwyllt, a hynny uwchlaw gwneud y lle gwyrdd hwn, sef y prif fan gwyrdd yn y dref, yn fwy trefol ei naws. Yn yr un modd, dylid gweithredu mesurau tuag at sicrhau bod yr afon yn cyrraedd statws 'da'. Mae'r newidiadau mawr a gafodd eu gwneud i'r afon yn gallu achosi newidiadau i lefelau naturiol y llif, a pheri i waddodion yr afon ymgasglu a chynyddu, gan arwain at golli'r cynefinoedd sydd eu hangen ar fywyd gwyllt i allu ffynnu. Dylai mesurau hefyd dalu sylw dyledus i'r angen i leihau a rheoli'r perygl o lifogydd i fannau ymhellach i lawr yr afon.

Dylid cwblhau Asesiad Bygythiad Llifogydd o fannau penodol; (er enghraifft y mannau "*pump track*" arfaethedig rhwng yr afon a'r byndiau sy'n creu'r prif amddifynfeydd yn erbyn llifogydd), a datganiad ar

fioamrywiaeth sy'n rhoi sylw i gynlluniau bioamrywiaeth y Cyngor ar gyfer cadwraeth, gwella ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau.



235 decibels

hard to remember how it was
when they improvised and tossed
a tune for days on end
when small one set his voice free
when they all played catch bubbles O
O
O
when a chorus of bass notes
overtones tail-slaps clicks rumbles
filled the sea
when wind sang the lighthouse

there was a time when they could answer
songs from beyond the krill place
a time when their voices
were loudest

but now dark ones _____
won't stop _____screaming
and lurk _____in the deep places
stealing music and sleep _____

sometimes muscles _____remember old
patterns_____
but they _____can no longer tell _____what they sing

moon still licks it tongue _____over their backs
but there is no meaning in this water_____

Submarine sonar are 235 decibels. The loudest rock concert is 130 decibels.

Smalls Lighthouse

Gannets skim the boat
borrowing updrafts.

He watches until birds disappear
until the boat is a dot

until engine noise is lost

under the voice of waves
under the creak of barnacles.

He works alone

repairing horn and light
until sunset.

Stretched out on rock—
hair thick with sea-salt

he listens to night spirits—

to ones who worked the light before
to wreck-chatter from the deep.

Ripples of phosphorescence
flame from his watery toes.

Pulsing out to dark places.





A fydd Hydrogen yn gallu ateb y galw am ynni yn y dyfodol? Na fydd, dyna'r farn ar hyn o bryd.

Mae realiti newid hinsawdd bellach yn cael ei dderbyn gan bawb, bron iawn. Mae'r ddadl wedi symud ymlaen at y cwestiwn sy'n gofyn sut y gallwn ni ddiwallu ein hangenion ynni yn y dyfodol heb ryddhau nwyon tŷ gwydr. Mae un ffynhonnell ynni bosibl, sef hydrogen, wedi cael cryn dipyn o sylw yn ddiweddar. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cymorthdaliadau sylweddol, sy'n dod o arian trethdalwyr, ar gyfer ei ddatblygu. Ond ai dyma'r ffordd orau o ddefnnyddio ein harian ni?

Mae Hydrogen yn elfen gyffredin iawn, ond mae'n bodoli gan mwyaf ar ffurf sydd wedi ei chyfuno ag elfennau eraill; gydag ocsigen (fel dŵr) neu gyda charbon (fel methan neu nwy naturiol). Cyn inni allu defnyddio hydrogen fel tanwydd, rhaid ei hollti i ffwrdd o'r elfennau eraill hyn, ac i wneud hynny rhaid defnyddio cryn dipyn o ynni. Hefyd, os ydyn ni'n cael yr hydrogen o fethan (nwy naturiol), mae'r broses yn rhyddhau carbon deuocsid, sef rhywbeth rydyn ni'n awyddus iawn i'w osgoi.

Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'n hydrogen yn dod o fethan ac mae'n cael ei gynhyrchu gan y diwydiant tanwydd ffosil. Er mwyn lleihau'r niwed i'r amgylchedd sy'n cael ei wneud gan y carbon deuocsid a gynhyrchir,

mae un syniad yn argymell y dylid ei ddal a'i storio o dan Fôr y Gogledd, sef o ble mae'r nwy naturiol wedi cael ei dynnu. Hydrogen glas yw hwn. Mae hydrogen gwyrdd yn dod o hollti moleciwlau dŵr, ac mae'r hydrogen hwn yn gwbl rydd o allyriadau nwyon tŷ gwydr (ac eithrio'r hydrogen ei hunan). Serch hynny, ar hyn o bryd mae'r broses o'i gynhyrchu ar raddfa ddiwydiannol yn ei dyddiau cynnar. Yn ddiweddar iawn mae tyllau bach sy'n rhyddhau hydrogen pur o'r tir wedi cael eu canfod. Am y tro, dim ond ychydig bach iawn o hydrogen sy'n cael ei ryddhau fel hyn, ond efallai mae'n dangos bod cronfeydd sylwedddol o hydrogen naturiol yn bodoli, a gallai hynny fod yn bwysig.

Mae'n debygol mai hydrogen glas fydd yn cael cyfran fawr o gyllid y llwyodraeth o ganlyniad i'r strategaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac mae'r pryderon yn ei gylch felly'n parhau. Mae'n anochel y bydd gollyngiadau damweiniol o garbon deuocsid a methan yn digwydd, ac mae'n aneglur sut y bydd y rhain yn cael eu monitro a'u rheoli. Mae methan yn nwy tŷ gwydr pwerus, dau ddeg wyth gwaith yn fwy pwerus na charbon deuocsid. Mae hyd yn oed gollyngiadau cymharol fach yn cael effaith sylweddol. Mae'r diwydiant tanwydd ffosil wedi bod yn eithriadol o araf i weithredu ar y gollyngiadau methan sydd wedi digwydd yn ddiweddar, ac mae'n debygol na ellir dibynnu arno i weithredu mewn modd mwy cyfrifol yn y dyfodol. Mae hydrogen ei hun yn nwy tŷ gwydr

anuniongyrchol oherwydd y ffordd y mae'n effeithio ar fethan ac osôn yn yr atmosffer uwch. Y gred yw ei fod tuag un ar ddeg gwaith yn gryfach na charbod deuocsid. Mae hefyd yn foleciwl bach iawn, ac felly mae'n fwy tebygol o ddianc o bibellau a chyfleusterau storio na'r rhan fwyaf o nwyon eraill. Prin iawn bod y seilwaith i reoli hydrogen fel tanwydd ar raddfa fawr wedi dechrau cael ei datblygu.

Mae hydrogen gwyrdd yn rhydd o allyriadau sy'n gysylltiedig â charbon. Cyn inni allu ei alw'n danwydd gwyrdd, rhaid i'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio i'w gynhyrchu ddod o ffynonellau ynni adnewyddadwy; gwynt, solar, pŵer trydan dŵr, neu bŵer o'r llanw a'r tonnau. Ar hyn o bryd mae cynhyrchu hydrogen gwyrdd o drydan tua 60% yn effeithlon, a'i droi'n ôl yn ynni y gellir ei ddefnyddio tua 60% yn effeithlon, ac felly mae'n cymryd tua theirgwaith yn fwy o drydan i'w droi'n hydrogen ac yn ôl nag i jyst ddefnyddio'r trydan adnewyddadwy'n uniongyrchol. Byddai angen buddsoddiad anferth newydd mewn safleoedd hydrogen a'r cyfleusterau storio a'r pibellau. O ganlyniad i hynny, mae hydrogen gwyrdd yn opsiwn drud, ac mae'n debygol o barhau felly yn y dyfodol er gwaethaf unrhyw welliannau i effeithlonrwydd. Hyd nes bod cynhyrchu trydan yn gwbl ddi-garbon, nid yw'n gwneud

llawer o synnwyr defnyddio llwyth mawr o ynni adnewyddadwy i gynhyrchu hydrogen. Byddai'n well ei ddefnyddio i leihau'r defnydd o danwydd ffosil i wresogi tai pobl a darparu pŵer ar gyfer eu ceir.

Felly, beth yw'r rheswm pam mae Llywodraeth y DU mor awyddus i fuddsoddi arian mewn hydrogen. Wel, mae'n ymddangos ei bod yn sicr y bydd hydrogen yn chwarae rhywfath o ran yn y broses o symud i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil. Mae'n anodd i drydan fodloni rhai anghenion ynni, megis anghenion y cyrnhyrchwyr dur, y diwydiant awyrennau, a'r diwydiant llongau. Hefyd mae'n bosib y bydd yn chwarae rhan wrth storio ynni adnewydadwy sydd dros ben pan fydd lefel gynhyrchu'r ynni hwnnw yn fwy na'r galw. Ond mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad bod hydrogen glas yn cynnig ffordd hwylus i'r diwydiant tanwydd ffosil allu parhau i ddefnyddio llawer o'i asedau a'i sgiliau, a'i fod fel diwydiant wedi gallu bod yn lobïwr effeithiol iawn. Yn sicr, byddai'n well targedu'r rhan fwyaf o'n hymdrechion a'n harian tuag at ehangu'r ynni rhataf sydd ar gael, sef gwynt a solar, gan uwchraddio'r grid cenedlaethol a datrys y broblem o storio ynni. Does dim amser i'w golli. Mae canolbwyntio ar hydrogen, ar ei orau, yn ein denu i ffwrdd oddi wrth gyflawni ein prif nod, ac mae perygl sylweddol y gallai hydrogen achosi allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n uwch na'r disgwyl, gan ychwanegu at wresogi byd eang.

Is Hydrogen the answer to our future energy needs? (Spoiler alert; Probably not)

The reality of climate change is now accepted by almost everyone. The debate has moved on to the question of how to meet our future energy needs without emitting greenhouse gases. One potential source of energy that has had quite a bit of attention recently is hydrogen. The UK government has recently announced significant tax payer subsidies for its development. But is this the best use of our money?

Hydrogen is a very abundant element, but largely exists combined with other elements; with oxygen (as water) or with carbon (as methane or natural gas). Hydrogen can only be used as a fuel if split from these other elements and that takes energy, quite a lot of energy. What's more, if obtained from methane (natural gas) the process also releases carbon dioxide which is what we really want to avoid.

Currently most of our hydrogen comes from methane and is produced by the fossil fuel industry. To reduce the environmental damage from the carbon dioxide produced one idea is that it be captured and stored under the North Sea where the natural gas has been extracted. This is Blue Hydrogen. Green hydrogen, from splitting water molecules, is genuinely free of greenhouse gas emissions (except for hydrogen itself), but it is in the early stages of industrial scale production. Very recently small vents of pure hydrogen coming from the ground have

been found. For now, the amounts are trivial but it is possible that there are significant reserves of natural hydrogen that could be important.

Blue Hydrogen is likely to get a large slice of government funding as a result of the recently announced strategy, but there are several concerns. There will inevitably be leaks of both carbon dioxide and methane. It is unclear how these will be monitored and minimised. Methane is a powerful greenhouse gas, twenty-eight times more powerful than carbon dioxide. Even relatively small leaks are significant. The fossil fuel industry has been incredibly slow to act on current methane leakage, and can probably not be relied upon to act more responsibly in future. Hydrogen itself is an indirect greenhouse gas because of the way it affects methane and ozone in the upper atmosphere. It is thought to be about eleven times more potent than carbon dioxide. It is also a very small molecule so more prone to leakage from pipelines and storage facilities than most other gases. The large-scale infrastructure to manage hydrogen as a fuel has barely begun to be developed.

Green hydrogen is free of carbon-related emissions. It is only a green fuel if the electricity used to produce it comes from renewable sources; wind, solar, hydroelectric, tidal or wave power. Currently producing green hydrogen from electricity is about 60% efficient and converting it back to usable energy is about 60% efficient, so it takes around three times more electricity to convert it to hydrogen and back again than it would to simply use

the renewable electricity directly. It will require a massive amount of new investment in hydrogen plants, storage and pipelines. As a result, green hydrogen is and will probably remain an expensive option, despite likely improvements in efficiency. Until electricity generation is completely decarbonised it doesn't make much sense to divert large amounts of renewable energy to hydrogen. It would be better used to directly reduce fossil fuels use to heat people's homes and power their cars.

So why is the UK government so keen to put money into hydrogen. Well, it seems certain that hydrogen will play some role in the transition away from fossil fuels. Some energy needs are hard to meet with electricity, such as steel manufacture, aviation, and shipping. It may also play a role in the storage of excess renewable energy when production exceeds demand. But it is hard to escape the observation that blue hydrogen offers the fossil fuel industry a neat way of carrying on using many of it's assets and skills, and that as an industry it has proved very effective at lobbying. Surely it would be better to put most of our efforts and money into expanding the cheapest available energy, wind and solar, upgrading the national grid and solving the issue of energy storage. There is no time to lose. Focussing on hydrogen seems at best a distraction, and carries significant risks of higher-than-expected greenhouse gas emissions adding to global warming.

Rishi Sunak has just called a UK general election for 4 July! Whichever parties form the next Government, and whoever gets the keys to No. 10, WE must make sure that the new Parliament contains a majority of MPs who'll deliver serious climate and nature action. We must ensure that YOUR future MP has pledged to do all they can (in the crucial five years to 2030) to tackle the existential crises we face. We can't accept yet more agonising years of unambitious policies, U-turns and delays. There's too much at stake. The good news? Friends of the Earth UK has pledged to support Zero Hour - a bold, new, joined-up, science-led, people-power campaign to promote the Climate and Nature bill. The CAN Bill calls for an emergency strategy for the UK to address the crisis. By passing the bill, the Government would be making a legal commitment to ensure that policy and action is driven by what the science tells us is necessary, not what big business lobby for. The CAN Bill would ensure that the UK:

Makes its fair share of emissions cuts necessary to limit the increase in global temperatures to 1.5°C (the more ambitious end of the Paris Agreement).

Accounts for its entire carbon footprint wherever the emissions occur. This means taking real action on the emissions we cause overseas through the production, trade and transportation of the things we consume.

Halts and reverses the decline of nature by 2030, in line with COP15 commitment. Protects and restores natural

and managed ecosystems, for healthy soil and water, increased biodiversity and thriving natural carbon sinks.

Takes responsibility for its harmful impacts on nature around the world. This means being honest about the damage to the environment caused by our financing, investments and consumption; making sure we reduce our global impact on natural resources.

The Bill calls for the creation of a Climate & Nature Assembly that would put forward recommendations for the emergency strategy to Parliament. This group of ordinary citizens, selected at random like a jury, would listen to expert evidence before reaching conclusions on the best way forward. Their recommendations would be debated in Parliament, but MPs would still have the final say.

The CAN Bill is the only proposed legislation in the UK that tackles the climate and nature emergencies as one; recognising that the repair of our natural world and action on climate are two sides of the same coin.


Go to the Zero Hour website to show your support and to ask your MP and parliamentary candidates to pledge to support the bill in the next parliament

Also, we are inviting YOU to join Zero Hour at the Restore Nature Now family-friendly march on 22nd June in Central London. Day buses will be picking up in Wrexham.

Contact Christine Meirion on 07966540399 if you want a seat.

Restore Nature Now is a collective call for urgent action to reverse nature's destruction before it's too late. The march will be made up of 150+ nature and climate organisations including Zero Hour and our allies, The Wildlife Trusts, CPRE, Wildlife and Countryside Link, Extinction Rebellion, Friends of the Earth and well-known campaigners (including CAN Bill supporter) Chris Packham.

For more information go to the Zero Hour website.



Mae Rishi Sunak newydd gyhoeddi y bydd etholiad cyffredinol yn y DU ar 4 Gorffennaf! Pa bynnag plaid neu bleidiau sy'n ffurfio'r llywodraeth nesaf, a phwy bynnag sy'n ennill yr allweddi i Rif 10, rhaid i ninnau wneud yn siŵr y bydd y rhan fwyaf o'r aelodau yn y Senedd newydd yn bobl a fydd yn barod i weithredu o ddifrif ar yr hinsawdd a natur. Rhaid inni sicrhau bod ein Aelodau Seneddol ni wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn eu gallu (yn ystod y pum mlynedd hollbwysig hyd at 2030) i fynd i'r afael â'r argyfyngau sy'n bygwth ein bodolaeth. Ni allwn ddioddef rhagor o flynyddoedd blin o bolisïau di-gyfeiriad a gwleidyddion yn gwneud tro bedol neu'n llusgo eu traed. Mae'r pris bellach yn beryglus o uchel. A'r newyddion da? Mae Cyfeillion y Ddaear y DU wedi ymrwymo i gefnogi'r ymgyrch awr sero, *Zero Hour*, sef ymgyrch ddewr a newydd sy'n cael ei gyrru gan ewyllys ac egni'r bobl, ac sy'n ymgyrch gydgysylltiedig a arweinir gan ddealltwriaeth wyddonol, i hyrwyddo'r Bil Hinsawdd a Natur. Mae'r Bil hwn yn galw am strategaeth frys a fydd yn galluogi'r DU i ymateb i'r argyfwng. Drwy basio'r bil, byddai Llywodraeth San Steffan yn gwneud ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau bod polisi a chamau gweithredu yn cael eu llywio gan yr hyn sy'n angenrheidiol yn ôl yr wybodaeth wyddonol gyfredol, yn hytrach na gan weithgarwch lobïo'r cwmnïau mawr. Byddai'r Bil Hinsawdd a Natur yn sicrhau bod y DU yn gwneud y canlynol:

Sicrhau ei bod yn gwneud ei siâr deg o doriadau i allyriadau fel sy'n angenrheidiol i gyfyngu ar y cynnydd

mewn tymheredd byd-eang i 1.5°C (targedau mwy uchelgeisiol Cytundeb Paris).

Cymryd cyfrifoldeb am ei hôl troed carbon lle bynnag y bydd allyriadau'n digwydd. Mae hynny'n golygu cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael ag allyriadau a achosir gennym dramor drwy gynhyrchu, masnachu a chludo'r nwyddau sy'n cael eu prynu gennym.

Rhoi stop ar y dirywiad ym myd natur, ac yn lle hynny ei adfer, erbyn 2030 yn unol ag ymrwymiad COP15. Diogelu ac adfer ecosystemau a reolir a rhai naturiol er mwyn sicrhau bod y pridd a'r dŵr yn iach, gan gynyddu bioamrywiaeth, a hefyd sicrhau bod yna ddalfeydd carbon sy'n fynnu.

Ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei heffeithiau niweidiol ar natur ar draws y byd. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid bod yn onest am y niwed i'r amgylchedd sy'n cael ei achosi gan ein ffordd o fuddsoddi cyllid a defnyddio adnoddau; er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau ein heffeithiau byd-eang ar adnoddau a chyfoeth naturiol. Mae'r Bil yn galw am greu Cynulliad Hinsawdd a Natur a fyddai'n cyflwyno argymhellion ar gyfer y strategaeth argyfwng i'r Senedd yn San Steffan. Byddai'r grŵp hwn, a fyddai'n cael ei dynnu o ddinasyddion cyffredin sydd wedi eu dewis ar hap, yn gwrando ar dystiolaeth arbenigol cyn dod i gasgliadau am y ffordd orau ymlaen. Byddai eu hargymhellion yn cael eu trafod yn y Senedd, ond yr Aelodau Seneddol fyddai'n parhau i gael y gair olaf.

Y Bil Hinsawdd a Natur yw'r unig ddeddfwriaeth arfaethedig yn y DU ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur fel un argyfwng; gan gydnabod bod adfer byd natur a gweithredu ar yr hinsawdd yn ddwy ochr i'r un geiniog.

Ewch i wefan *Zero Hour* i ddangos eich cefnogaeth, ac i ofyn i'ch Aelod Seneddol a'r ymgeiswyr yn yr etholiad ymrwymo i gefnogi'r bil yn y Senedd nesaf.

Hefyd rydyn ni'n eich gwahodd chi i ymuno â *Zero Hour* yn yr orymdaith dros adfer natur, *Restore Nature Now*, lle mae croeso i deuluoedd ac eraill orymdeithio ar 22 Mehefin yng Nghanol Llundain. Bydd bysys yn mynd i lawr am y dydd, gan godi pobl yn Wrecsam. Cysylltwch â Christine Meirion ar 07966540399 os hoffech chi gadw sedd.
Mae *Restore Nature Now* yn dod â phobl ynghyd i fynnu bod camau brys yn cael eu cymryd i rhoi stop ar y dinistr i natur a dechrau ei hadfer cyn i'r sefyllfa fynd yn rhy hwyr. Bydd yr orymdaith yn cynnwys 150+ o sefydliadau natur a hinsawdd, gan gynnwys *Zero Hour,* a chefnogwyr fel yr Ymddiriedolaethau Natur, CPRE, *Wildlife and Countryside Link*, *Extinction Rebellion*, Cyfeillion y Ddaear ac ymgyrchwyr annabyddus, (gan gynnwys cefnogwr brwd y Bil Hinsawdd a Natur) Chris Packham.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan *Zero Hour* .

Saith Rheswm dros bleidleisio ar 4 Gorffennaf

1 Mae bwrw pleidlais yn helpu i amddiffyn democratiaeth. Yn ei hanfod, mae pleidleisio yn ymwneud â democratiaeth. Po fwyaf y mae pobl yn cymryd rhan mewn etholiadau drwy ddefnyddio eu hawl i bleisleisio, mwyaf yn y byd y mae pwysau ar wleidyddion i gynrychioli buddiannau'r etholwyr. Os bydd mwy o bobl yn pleidleisio, bydd hynny'n cymell gwleidyddion i wrando, gan y byddai eu sefyllfa'n fwy bregus fel arall. Mae poblogaeth sy'n manteisio ar y cyfle i bleisleisio yn amddiffyn democratiaeth. Os yw gwleidydd yn cael ei ddewis oherwydd eu addewidion, ond wedyn yn methu â'u cadw, gall yr etholwyr bleidleisio i gael gwared arno.

2 Mae pob pleidlais yn cyfrif. Ni yw rhai pobl yn ymdrafferthu i bleidleisio gan eu bod yn credu nad yw un pleislais yn gwneud gwahaniaeth. Y realiti yw bod rhai seddi mewn etholiadau cyffredinol yn cael eu penderfynu ar sail pleidlais agos iawn. Pe bai pawb yn defnyddio eu pleidlais, byddai llywodraethau'n llawer mwy cynrychiadol.

3 Mae eich pleidlais yn llywio polisi cymdeithasol. Mae etholiadau'n effeithio ar lawer o bolisïau cymdeithasol a chyhoeddus. Mae'r polisïau hyn yn effeithio ar bawb ohonom mewn un ffordd neu'r llall. Mae pleidleisio yn hanfodol er mwyn inni allu dylanwadu ar bwy sy'n cael pasio deddfau a fydd yn effeithio ar ein bywydau ni.

4 Mae bwrw pleidlais yn helpu i siapio'r economi. Mae'r cyfreithiau yn ein cymdeithas yn effeithio ar faterion cymdeithasol, ond cofiwch eu bod hefyd yn siapio'r economi. Drwy bleidleisio, gall bobl ddylanwadu ar ein heconomi.

5 Mae eich pleidlais yn effeithio ar bolisïau amgylcheddol. Wrth i'r newid yn yr hinsawdd barhau i fygwth ein planed a'n bodolaeth, mae'n bwysicach nag erioed bleidleisio o blaid yr amgylchedd. Mae polisïau amgylcheddol bellach yn destun dadlau a ffraeo wrth iddynt ymwneud fwyfwy â materion sy'n troi'n argyfwng. Mae rhai gwleidyddion yn deall yr heriau sy'n ein hwynebu, tra bod eraill yn parhau i wrthod derbyn bod unrhyw broblem. Ni'r etholwyr fydd yn penderfynu pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau pwysig ar ein rhan.

6 Mae pleidleisio yn dylanwadu ar bolisi tramor. Rhaid i bob gwlad a chenedl ymwneud ag eraill, o ran masnach, buddiannau sy'n gyffredin iddynt, neu o ran datrys anghydfodau neu wrthdaro. Mae'n bosibl nad yw llawer o'r rheini sy'n pleidleisio yn ymwybodol o faint y bydd eu pleidlais yn dylanwadu ar bolisïau tramor, ond mae'r polisïau hyn yn gallu effeithio ar bethau bob dydd fel prisiau nwyddau a chyfleoedd gwaith.

7 Drwy fwrw eich pleidlais byddwch yn parchu'r aberth a wnaed gan ymgyrchwyr y gorffennol i sicrhau bod pobl eraill, heblaw am ddynion a oedd yn berchen ar eiddo, yn cael y cyfle i bleidleisio. Cyn 1918, dim ond 58% o oedolion, a rheini'n ddynion i gyd, oedd â'r hawl i bleidleisio; nid oedd unrhyw fenywod yn cael pleidleisio. Wedi llawer o brotestio ac ymgyrchu, enillodd menywod yr un hawliau pleidleisio â dynion yn sgil pasio'r Ddeddf Etholfraint Cyfartal, sef yr *Equal Franchise Act*, yn 1928.

Seven Reasons to Vote on 4 July

1 Voting protects democracy. At its core, voting is about democracy. The more people participate in elections and exercise their right to vote, the more important it is for politicians to represent voter interests. If more people vote, politicians will be more motivated to listen because their positions are more at risk. An active voting population protects democracy. If a politician is chosen because of their promises, but then breaks them, voters can vote them out.

2 Every vote matters. Many people don't vote because they believe their one vote doesn't matter. The reality is that some seats in general elections are decided by close margins. If everyone used their vote, governments would be significantly more representative.

3 Voting shapes social policy. Many social and public policies are affected by elections. These policies affect everyone in one way or another. To have a say in who gets to pass laws which will affect our lives, voting is essential.

4 Voting shapes the economy. The laws within our society don't only affect social issues, they also shape the economy. By voting, people can influence our economy.

5 Voting affects environmental policies. As climate change continues to threaten our planet and ourselves, it's more important than ever to vote with the environment in mind. Environmental policies have become contentious and urgent. Some politicians understand these challenges while others continue to deny there's even a problem. Voters will decide who will make the important decisions.

6 Voting affects foreign policy. All nations must engage with other countries whether on trade, shared interests, or resolving conflicts. Many voters may not think much about how their vote determines foreign policy, but these policies can affect everyday things like how much goods cost and job opportunities.

7 Voting respects the sacrifices made by activists to ensure people other than men who owned property were able to vote. Before 1918 only 58% of the adult male population were entitled to vote; no women could vote. After many protests and campaigns women were given the same voting rights as men after the passing of the Equal Franchise Act of 1928.

Hustings for Clwyd East Constituency at Theatr John Ambrose, Bryn Hyfred School on the evening of 20th June 2024 at 7pm.

For those who don't know a hustings is a panel discussion in the run-up to an election where candidates debate policies and answer questions from the audience. It's a great way to secure commitments from the candidates and build relationships with them.

In light of the previous article, the more people that turn up the better. At the time of printing, it is thought that all of the election candidates will be there for the discussion.

Dewch draw i *Hustings* Etholaeth Dwyrain Clwyd yn Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd ar noson 20 Mehefin 2024 am saith o'r gloch.

I'r rheini ohonoch sydd ddim yn gwybod, mae *hustings* yn gyfle i banel o ymgeiswyr drafod a dadlau o blaid eu polisïau, yn ogystal ag ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae'n ffordd wych o gael ymgeiswyr i wneud ymrwymiadau ac i chithau feithrin cysylltiadau â nhw

Yng ngoleuni'r erthygl flaenorol, gorau oll po fwyaf o bobl sy'n troi i fyny. Ar adeg mynd i'r wasg, y gred ydy y bydd pob un o'r ymgeiswyr yn yr etholiad hwn yn bresennol ar gyfer y drafodaeth.

Projects and Contacts

Group Secretary	Jean Leith
Litter Picks	Steven Hoyle
Plastic Free Ruthin	Richard Barrie
FoE Chair	Richard Barrie
Repair Café	Anne Lewis
Climate Emergency	Mair Davies
Resilient Communities	Graham Steel/ Christine Meirion
Newsletter	Diana Sanders
Media	Peter Lund/Diana Sanders
Translation	Sian Gwyn-Ifan
Denbighshire Environmental Alliance	Graham Steel

Groups FoE Ruthin work alongside

Drosi Bikes	Beth Ward/Robin Hughes
Y Ty Gwyrdd	Marguerite Lovegrove
Bws Benthyg/Borrow Bus	Janine Cusworth/Jozsef Vass
Resource Young Volunteers	Janine Cusworth.

Prosiectau ac Enwau cyswllt

Ysgrifennydd y Grwp	Jean Leith
Casglu Sbwriel	Steven Hoyle
Rhuthun Di-blastig	Richard Barrie
Cadeirydd Cyfeillion y Ddaear	Richard Barrie
Caffi Trwsio	Anne Lewis
Argyfwng Hinsawdd	Mair Davies
Cymunedau Cadarn	Graham Steel/ Christine Meirion
Cylchlythyr	Diana Sanders
Cyfieithu	Sian Gwyn-Ifan

Grwpiau sy'n gweithio ochr yn ochr a Chyfeillion y Ddaear

Drosi Bikes Beth Ward/Robin Hughes
Y Ty Gwyrdd Marguerite Lovegrove
Bws Benthyg/Borrow Bus & Resouce Janine Cusworth/ Jozsef Vass
Resource Young Volunteers Janine Cusworth

